# Enw'r Grŵp Trawsbleidiol: Tadau a Thadolaeth

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyntaf

Dyddiad: 13 Mehefin 2017 - **6.00pm - 8.00pm**

Lleoliad: **Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

Yn bresennol:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Mark Isherwood AC | Cadeirydd / Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru |
| Neil McEvoy AC | Aelod Cynulliad dros Ganol De Cymru |
| Paul Apreda | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol: Tadau a Thadolaeth / Rheolwr Cenedlaethol, FNF Both Parents Matter Cymru |
| Dr Sue Whitcombe | Family Psychology Solutions |
| Gwilym Roberts | Relate Cymru |
| Keith Whitcombe | Aelod o'r cyhoedd |
| Alun Watkins | Aelod o'r cyhoedd |
| Y Cynghorydd Dan De'Ath | Aelod o'r cyhoedd / Cynghorydd Sir Caerdydd |
| Jordan Holbrook | Aelod o'r cyhoedd |
| Gwynne Davies | Aelod o'r cyhoedd |
| Steve Bayliss | Aelod o'r cyhoedd |
| Richard Bradford | Aelod o'r cyhoedd |
| Tony Stott | Aelod o'r cyhoedd |
| Mark Davies | Aelod o'r cyhoedd |
| Dr Vikesh Chouhan | Aelod o'r cyhoedd |
| Simon Millington | Aelod o'r cyhoedd |
| Charlotte Balcombe | Aelod o'r cyhoedd |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Ymddiheuriadau:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Michelle Brown AC | Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru |
| Janet Finch-Saunders AC | Aelod Cynulliad Aberconwy |
| | |
| | |

**Crynodeb o'r cyfarfod:**

Agorodd Mark Isherwood AC y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol drwy groesawu pawb a chyflwyno Dr Sue Whitcombe.

Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau am swyddi’r Cadeirydd a’r Ysgrifennydd a chadarnhaodd y cyfarfod fod Mark Isherwood AC yn cael ei ailethol yn Gadeirydd a Paul Apreda yn Ysgrifennydd.

**Dieithrio Plant oddi wrth Rieni - 'camau ymarferol i fynd i'r afael â dieithrio'**

Rhoddodd Dr Sue Whitcombe o Family Psychology Solutions gyflwyniad ar Ddieithrio Plant oddi wrth Rieni. Roedd Dr Whitcombe wedi siarad yn y Gynhadledd Flynyddol ac yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Families Need Fathers ym Mryste ym mis Mawrth 2017 ar bwnc tebyg. Mae hi'n arbenigwr ar y pwnc ac yn gweithio yn y llys teulu i adnabod achosion o ymddieithrio a darparu atebion i rieni, plant a'r Llysoedd.

Diffiniodd Dr Whitcombe beth yw dieithrio plant oddi wrth rieni - gan gynnwys Gelyniaeth Ddifaddeuant, Rhianta Ymosodol Gelyniaethus, Dieithrio Plant oddi wrth Rieni am resymau Ymlyniad a magu plant Pathogenig gan gyfeirio at y llenyddiaeth academaidd ar y pwnc, yn cynnwys Kelly a Johnson 2001 a Fidler, Bala a Saini (2013).

Dieithrio Plant oddi wrth Rieni (PA) yw gwrthod rhiant heb gyfiawnhad neu’n ddiangen lle’r oedd yna gynt berthynas arferol, gariadus, ddigon da. PA yw gweithredoedd bwriadol neu anfwriadol rhiant (y Rhiant â Gofal fel arfer) i droi ei blentyn neu blant yn erbyn y rhiant arall (Rhiant Di-breswyl fel arfer). Dros amser, mae'r plentyn yn troi’n elyniaethus, yn hallt ei dafod ac yn gam-driniol cyn gwrthod y rhiant a gwrthod cyswllt.

Yn ei hastudiaethau ei hun, roedd honiadau ffug o gam-drin yn nodwedd gref yn yr achosion y mae wedi delio â nhw. Mewn 67% o achosion gwnaed honiadau ffug o drais domestig gan gyn-bartner tra bod 81% o achosion yn cynnwys honiadau ffug o gam-drin plentyn yn erbyn y rhiant a oedd wedi’i ddieithrio.

Mae'n bwysig cydnabod bod Dieithrio Plant oddi wrth Rieni yn bodoli ar sbectrwm, o achosion ysgafn i rai difrifol, a bod angen i'r ymatebion gydnabod y realiti hwnnw a dylunio ymyriadau a chanlyniadau yn unol â hynny.

**Trafodaeth gyffredinol**

Rhannodd llawer o'r rhai a oedd yn bresennol eu syniadau nhw am ffenomen Dieithrio Plant oddi wrth Rieni – roedd rhai yn gwneud hynny trwy brofiad personol o fod yn rhiant a oedd wedi’i ddieithrio neu’n 'darged'. Nodwyd bod Deiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol ar fater cydnabod Dieithrio Plant oddi wrth Rieni gan Lywodraeth Cymru wedi denu dros 2,000 o lofnodion. Nid oedd y

rhai a oedd yn bresennol yn teimlo bod yr ymatebion gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y tro cyntaf y cyflwynwyd y ddeiseb yn ddefnyddiol iawn.

**Arolwg Tadau Cymru - canfyddiadau interim o arolwg 2017**

Rhannodd Paul Apreda y canfyddiadau interim a pheth o'r data o arolwg 2017 o dadau a'r rhai sy'n gweithredu yn rôl tad yng Nghymru. Roedd yn arwyddocaol nodi bod y gyfradd ymateb wedi dyblu i 419 o unigolion. Cynrychiolwyd pob Awdurdod Lleol gyda'r ymateb mwyaf yn dod o Gaerdydd ar 92, a niferoedd da o Flaenau Gwent (32), Caerffili a Rhondda Cynon Taf (31 yr un), Sir Gaerfyrddin (28), Pen-y-bont ar Ogwr (25) a Merthyr a Bro Morgannwg (20 yr un).

Roedd cyfran yr ymatebwyr a nodwyd fel rhieni Di-breswyl – h.y. rhiant nad yw'n byw gyda'i blentyn am y rhan fwyaf o'r wythnos, wedi gostwng ychydig i 13½%.

Ymysg y data 'trawiadol' roedd y ffaith fod bron i 57% o'r ymatebwyr yn gofalu'r un faint neu fwy am eu plant â'r rhiant arall. Roedd llawer mwy o brofiadau cadarnhaol nag o rai negyddol o ran iechyd ac addysg, ar gymhareb o 2.5:1 Fodd bynnag, teimlai 2 ran o 3 nad yw eu rôl yn cael ei gwerthfawrogi'n gyfartal â rôl y fam gan awdurdodau a chymdeithas ac roedd bron i 80% o'r farn y dylai'r Llywodraeth wneud mwy i helpu tadau. Roedd profiad negyddol o Cafcass Cymru yn y Llys Teulu (4:1) ar lefel uwch hyd yn oed na phrofiad negyddol o weithwyr cymdeithasol mewn Awdurdodau Lleol (3:1). Nid oedd gan 2 ran o 3 o dadau unrhyw brofiad o gefnogaeth i rieni OND gwelwyd cynnydd mawr o'i gymharu ag arolygon blaenorol yn y sylwadau cadarnhaol gan y rhai a oedd â phrofiad o gefnogaeth i rieni.

Roedd sylwadau unigol y cyfranogwyr yn elfen o bwys yn yr arolwg a gyhoeddwyd - gellir eu gweld yma https://www.fnf-bpm.org.uk/image/upload/branch/cymru/WELSH_DADS_SURVEY_2017_report_FINAL.pdf

Roedd cwestiwn newydd wedi ymddangos yn arolwg eleni yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles. Amlygodd hyn fod llawer o dadau yn dioddef o iechyd meddwl gwael oherwydd pwysau bod yn rhiant. Roedd un tad a oedd wedi'i ddieithrio wedi gadael sylw a oedd yn peri pryder mawr, sydd i'w weld ar ddiwedd adroddiad yr arolwg.

***'I never stop thinking about taking my own life. There is NO help available. I just want to share my daughters' lives, that's all. I don't want to be told I'm depressed etc etc. I know that. My life has become totally impossible. I never did anything wrong. I have lost my entire family who have chosen to believe my Ex's lies and my children's not***

***wishing to see me being my own fault. I am completely alone and will almost certainly kill myself at some point; which, as all the mental Health specialists acknowledge, would be a perfectly rational and reasonable thing to do. It's only about....when?'***

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod mynnu bod gwasanaethau'n monitro'r rhaniad rhyw rhwng y rhieni y maen nhw'n eu cefnogi. Teimlwyd bod hyn yn arwain at senarios lle'r oedd tadau'n cael eu gwthio i'r cyrion a'u hanwybyddu tra mae gwasanaethau'n esgus hyrwyddo cynhwysiant drwy ganllawiau sy'n pwysleisio gwerth cynnwys tadau.

**Camau gweithredu**

- Edrych ar ddyddiad a phwnc ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol, ym mis Tachwedd 2017 yn ôl pob tebyg. Rhoddir ystyriaeth i wahodd cynrychiolwyr o'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Dadau.
- Paratoi rhestr o bynciau i'w codi gyda'r Aelod Cabinet dros Gymunedau a Phlant i wella'r ymgysylltu â thadau gan ymdrin yn benodol â phroblem cofnodi data.